



# Ysbryd Cath

## Byddwch angen:

- Argraffydd a phapur argraffu
- Siswrn
- Cerdyn
- Glud
- Tâp gludiog
- Pinnau ffelt, pensiliau neu greons
- Llinyn, gwlân neu ruban



Argraffwch y ffeil ar gyfer yr ysbryd cath.

Gludwch y taflenni wedi'u hargraffu ar ddarnau o gerdyn tenau. Defnyddiwch baced grawnfwyd gwag efallai? Gofynnwch i oedolyn am gymorth.

Pan fydd y glud wedi sychu, torrwch yn ofalus o gwmpas yr ysbryd cath.


Lliwiwch y sêr ar yr ysbryd os hoffech, ac ychwanegu addurniadau eraill hefyd efallai.

Nesaf, rhwygwch ddarn o bapur gwyn (neu bapur newydd hyd yn oed) ar ei hyd eto ac eto, nes bod gennych sawl stribed hir, tenau. Gofynnwch i oedolyn am gymorth.

Glynwch y stribedi mewn rhes ar hyd ymyl gwaelod ar gefn yr ysbryd cath, gan ddefnyddio tâp neu glud, fel eu bod yn hongian yn arswydus.

Gwnewch gwlwm mewn darn o llinyn neu wlân a'i dapio i gefn eich cath wrth ymyl y brig fel y gallwch ei hongian! Miaw-redd mawr!





Argraffwch, gludwch i gerdyn tenau os oes rhaid, a thorrwch yn ofalus!